**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD IAU, 20 o CHWEFROR 2014**

**THURSDAY, 20 FEBRUARY 2014**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR DOLGELLAU**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**PENARLAG**

**DOLGELLAU**

**am /at 10:30am**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS (01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

*Dosbarthwyd/Distributed: 12.2.14*

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones Williams (Cadeirydd/Chairman)

Louise Hughes

Ann Williams

Dilwyn Lloyd (wrth gefn)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

Dilwyn Morgan

# RHAGLEN

1. **CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

   **Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   **Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

3. **MATERION BRYS**

   **Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

4. **CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO:**

   **Y CWRT, 62 STRYD FAWR, BALA, LL23 7AB**

   **Ystyried y cais uchod**
   **(papur glas)**

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

**1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
**2. Diogelwch y Cyhoedd;**
**3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
**4. Amddiffyn plant rhag niwed:**

**PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS**

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

All are reminded of the four principles of the Licensing Act 2003 to be considered in all deliberations, namely:

**1) Crime and Disorder Prevention;**
**2) Public Safety;**
**3) Public Nuisance Prevention; and**
**4) Protection of Children from Harm.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **20 CHWEFROR 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – Y CWRT , STRYD FAWR, BALA** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i amrywio trwydded Y Cwrt, 62 Stryd Fawr, Y Bala LL23 7AB gan deilydd y drwydded, Maeseoud Anafcheh.
Cyflwynir y cais er mwyn ychwanegu'r gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta a'i yfed oddi ar yr eiddo.

Argymhellir oriau gweithgaredd trwyddedig fel a ganlyn –

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** |
|---|---|---|
| Dyddiau | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** |
| **Sul - Iau** | | 23:00 – 02:00 |
| **Gwen - Sad** | | 23:00 - 03:00 |
| | **Oriau agor a chau'r eiddo** | **Oriau agor a chau'r eiddo** |
| **Llun - Iau** | 11:00 – 02:30 | 11:00 – 02:00 |
| **Gwen - Sul** | 11:00 | 11:00 – 03:30 |
| | | |

**Manylion trwydded gyfredol**

| **Yr amseroedd yr awdurdodir y gweithgareddau trwyddedig**<br>*The times the licence authorises the carrying out of licensable activities* | | |
|---|---|---|
| **(e) Cerddoriaeth Byw Dan do** | | **(e) Live Music Indoors** |
| **Dydd Llun i Ddydd Sul** | **17.00 – 00.00** | **Monday to Sunday** |
| **Holl Wyliau Banc yn cynnwys Noswyl a Dydd Nadolig. Oriau a ganiateir ar Nos Galan (36awr)** | **17.00 – 02.00** | **All Bank holidays including christmas eve & Day Permitted hours for Newyears eve (36hrs)** |
| | | |
| **(f) Cerddoriaeth wedi'i recordio** | | **(f) Recorded Music** |
| **Dydd Llun i Ddydd Sul** | **17.00 – 00.00** | **Monday to Sunday** |
| **Holl Wyliau Banc yn cynnwys Noswyl a Dydd Nadolig. Oriau a ganiateir ar Nos Galan (36awr)** | **17.00 – 02.00** | **All Bank holidays including christmas eve & Day Permitted hours for Newyears eve (36hrs)** |
| | | |
| **m) Manwerthiant o alcohol** | | **m) Sale by retail of alcohol** |
| **Dydd Llun i Ddydd Iau** | **11.30 – 02.00** | **Monday to Thursday** |
| **Dydd Gwener i Ddydd Sul** | **11.30 – 03.00** | **Friday to Sunday** |
| **Nadolig. Oriau a ganiateir ar Nos Galan (36awr)** | | **Permitted hours for Newyears eve (36hrs)** |

| **Oriau agor yr eiddo** / *The opening hours of the premises* | | |
|---|---|---|
| **Dydd Llun i Ddydd Iau** | **11.00 – 02.30** | **Monday to Thursday** |
| **Dydd Gwener i Ddydd Sul** | **11.00 – 03.30** | **Friday to Saturday** |
| **Oriau a ganiateir ar Nos Galan (36awr)** | | **Permitted hours for New Years Eve (36hrs)** |

**Cais man amrywiad**

Yn wreiddiol , cyflwynwyd cais gan yr ymgeisydd fel cais am fan amrywiad ar y 26 o Fawrth 2013. Fe ddaeth cyfnod ymgynghori ar y cais i ben ar y 23ain o Ebrill, ac oherwydd i'r Heddlu a swyddogion y Cyngor dystio na fu i'r hysbyseb gael ei arddangos ar yr eiddo yn unol â gofynion Y Ddeddf Drwyddedu 2003, fe ofynnodd y swyddog trwyddedu i'r ymgeisydd ail hysbysebu'r rhybudd ar yr eiddo.

Fe ddaeth y cyfnod derbyn sylwadau i ben yr ail waith ar y 23ain o Fai 2013. Oherwydd i wrthwynebiad gael ei gyflwyno gan ddau aelod o'r Cyhoedd ac i'r Heddlu gyflwyno tystiolaeth a oedd yn cadarnhau pryderon y preswylwyr cyfagos; penderfynwyd gofyn i'r ymgeisydd ail gyflwyno cais fel cais amrywio llawn, fel bod unrhyw wrthwynebiad, a sylwadau gan yr Heddlu yn cael ei gyfeirio er ystyriaeth y Pwyllgor hwn.

**Cais amrywiad llawn**

Fe dderbyniwyd cais am amrywiad llawn gan yr ymgeisydd ar yr 8fed o Orffennaf 2013.

Cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar y cais ar 9fed o Awst , cafwyd cadarnhad nad oedd y cais wedi ei hysbysebu mewn papur newydd lleol yn ystod y cyfnod ymgynghorol yn unol â gofynion y Ddeddf. Hysbyswyd yr ymgeisydd gan y swyddog trwyddedu fod yn ofynnol iddo ail ymgynghori yn llawn ar y cais, gan arddangos copi o'r rhybudd ar yr eiddo ynghyd ag arddangos hysbyseb mewn papur newydd lleol. Yn ôl yr arfer , fe baratôdd y swyddog trwyddedu gopi o'r rhybudd newydd ai yrru i'r ymgeisydd. Roedd y cyfnod ymgynghori wedi ei ymestyn yn awr gyda dyddiad cau o 27 o Awst ar gyfer sylwadau.

Yn ystod y cyfnod ymgynghoriad fe ddaeth yn amlwg nad oedd yr hysbyseb wedi ymddangos yn y wasg, ac fe ymestynnwyd y cyfnod ymgynghori eto , gyda'r 16 o Fedi fel dyddiad cau diwygiedig ar gyfer derbyn sylwadau, er mwyn darparu digon o gyfle i'r ymgeisydd hysbysebu ar yr eiddo, ac yn y wasg.

Ar y 29 o Awst , derbyniwyd cadarnhad gan yr Heddlu fod yr hysbyseb wedi ymddangos yn y Cambrian News, ar y diwrnod hwnnw. Er bod yr hysbyseb wedi ei arddangos yn y wasg, roedd y dyddiad yn yr hysbyseb yn gofyn am sylwadau cyn y 29 o Fedi. Yn ogystal , fe ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn nad oedd y rhybudd wedi cael ei arddangos yn unol â'r gofynion ar yr eiddo.

Ar waethaf y ffaith fod swyddogion yr Uned Drwyddedu wedi cael sawl sgwrs gyda'r ymgeisydd parthed yr angen i hysbysu'r cais yn gywir, ac arddangos rhybudd o'r hysbyseb - ni lwyddwyd i wneud hynny.

Fe hysbyswyd yr ymgeisydd eto ar y 21 o Hydref fod rhaid i'r Uned Drwyddedu dderbyn tystiolaeth ei fod wedi arddangos y rhybudd yn gywir ar yr eiddo.

Fe ddechreuwyd y cyfnod ymgynghori eto ar y cais ar y 21o Hydref. Rhoddwyd addewid gan yr ymgeisydd y byddai tystiolaeth yn cael ei gyflwyno i ddangos fod y rhybudd wedi ei arddangos ar yr eiddo yn gywir.

Roedd yr ymgeisydd yn anfodlon nad oedd y cais wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor hwn er penderfyniad. Roedd rhaid gohirio gwrandawiad ar y cais a drefnwyd ar gyfer 18 o Ragfyr , 2013, oherwydd nad oedd yr ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth fod y rhybudd wedi ei arddangos ar yr eiddo mewn digon o bryd .

Fe dderbyniwyd y dystiolaeth gan yr ymgeisydd ar y 4ydd o Ragfyr.

**Rhybuddion Digwyddiadau dros dro**

Fe gynghorwyd yr ymgeisydd fod ganddo'r hawl i ymestynaid dros dro ar oriau darparu lluniaeth hwyr y nos i fyny i 11 achlysur mewn blwyddyn drwy'r broses o gyflwyno Rhybuddion Digwyddiadau Dros dro. Fe gyflwynwyd 9 Rhybudd Dros Dro gan yr ymgeisydd rhwng mis Awst 2013 a diwedd mis Rhagfyr. Fe ganiatawyd darparu lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo ar yr achlysuron isod –

| Dyddiadau Rhybuddion digwyddiadau dros dro | Amser darparu lluniaeth hwyr y nos |
|---|---|
| 9 a 10 Awst 2013 | 23:00 – 02:30 |
| 16 a 17 Awst | 23:00 – 02:30 |
| 23, 24, 25 , 26 Awst | 23:00 – 02:30 |
| 30 a 31 Awst | 23:00 – 02:30 |
| 14 Medi | 23:00 – 02:30 |
| 21 Medi | 23:00 – 02:30 |
| 20 a 21 Rhagfyr | 23:00 – 03:00 |
| 26 Rhagfyr | 23:00 – 03:00 |
| 28, 29 , 30, 31 o Ragfyr | 23:00 – 03:00 |

**Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y cais**

Derbyniwyd sylwadau ar y cais oddifewn i'r cyfnodau ymgynghori, fel a ganlyn –

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu | E byst - sylwadau a thystiolaeth |
| Preswylwyr cyfagos | 2 e bost - gwrthwynebu |
| gwesty cyfagos | 3 ffurflen sylwadau, 2 e bost , sylwadau a gwrthwynebiad |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 1 llythyr , sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr, dim gwrthwynebiad |
| | |

**Heddlu Gogledd Cymru**

Fe dderbyniwyd tystiolaeth gan yr Heddlu yn cadarnhau fod galwadau wedi eu derbyn gan breswylydd lleol yn datgan fod cwsmeriaid yn dod allan o'r eiddo gyda bwyd wedi 11:00 y nos, yn groes i'r hyn a ganiateir ar y drwydded gyfredol.
Nodir yn e byst yr Heddlu fod yr ymgeisydd wedi ei atgoffa o'r angen i weithredu oddi fewn i amodau ei drwydded gyfredol.
Yn ogystal â hyn mae'r Heddlu yn cadarnhau fod yr un preswylydd wedi gyrru lluniau o focsys bwyd a gwydrau ar y stryd tu allan i'r eiddo; sydd yn awgrymu fod yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus yn cael ei danseilio.
O safbwynt y penwythnosau lle caniatawyd ymestyniad oriau i ddarparu lluniaeth hwyr y nos dros dro - nodir fod yr Heddlu wedi derbyn un galwad am 3:18 y bore ar y 26 o Awst. Roedd y cwynydd yn cwyno am y lefel sŵn uchel yn dod o'r Stryd Fawr yn y Bala.
Nodir hefyd fod achlysuron eraill o anrhefn wedi dos i sylw'r Heddlu; mewn perthynas ag ymddygiad pobl ar y Stryd Fawr yn Bala yn gyffredinol yn hwyr y nos; ond ni ellir cysylltu'r digwyddiadau hyn yn uniongyrchol a'r Cwrt.

**Preswylwyr a busnes cyfagos**

Mae dau breswylydd cyfagos, ac unigolion yn cynrychioli gwesty cyfagos yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu –

- Atal trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd

Fe ddisgrifir achlysuron lle mae cwsmeriad wedi eu tystio i fod yn gadael yr eiddo gyda bwyd , ar ôl oriau y caniateir yn y drwydded. Fe geir disgrifiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan

gynnwys cwffio, gwneud dŵr mewn man cyhoeddus a gweiddi, tu allan i'r eiddo rhwng 2 a 4 y bore ar benwythnosau.

**Parc Cenedlaethol Eryri**

Derbyniwyd sylwadau gan yr Awdurdod, mewn perthynas â statws cynllunio'r eiddo. Gan na ellir rhoi ystyriaeth i faterion cynllunio mewn perthynas â'r broses o ystyried ceisiadau am drwydded; nid yw'r Awdurdod yn gwrthwynebu'r cais.
Noder fod amod 7 o ganiatâd cynllunio'r eiddo yn caniatáu i'r eiddo fod yn agored rhwng 7 y bore a hanner nos.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

Yn benodol , gofynnir i'r Is Bwyllgor ystyried os yw y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y ddeddf ac wedi derbyn ymgynghoriad priodol.

Argymhellir hefyd fod ystyriaeth yn cael ei roi i'r dystiolaeth a gyflwynir gan breswylwyr , gan unigolion o westy cyfagos a gan yr Heddlu.